**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-924
Ein cyf/Our ref KW/07408/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

01 Tachwedd 2019

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref yn amgáu manylion y ddeiseb a gafwyd gan Ysgol Dŵr y Felin sy'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno Cenhadon Llesiant, sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, ym mhob ysgol yng Nghymru.

Rwy'n nodi bod deiseb Ysgol Dŵr y Felin wedi codi o'u gwaith ar y prosiect ENABLE, menter ar lefel y DU gyfan i dreialu gwersi ar wrth-fwlio, a wnaeth eu cymell i hyfforddi a phenodi disgyblion fel cenhadon gwrth-fwlio yn yr ysgol.  Mae mynd i'r afael â bwlio mewn lleoliadau addysg yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Ein gweledigaeth yw herio bwlio mewn ffordd holistaidd, gan ymdrin â'r hyn sydd wrth wraidd ymddygiad annerbyniol a chreu amgylchedd cynhwysol a diddorol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae angen i ni gyd sicrhau bod parch, goddefgarwch a charedigrwydd yn rhan o gymunedau a diwylliannau ein hysgolion. Bydd hyn yn ein helpu i greu amgylchedd cynhwysol a diddorol lle mae llesiant pawb yn cael eu ystyried a lle mae pawb yn teimlo eu bod nhw’n cael eu derbyn.

Mae gan bob lleoliad addysg yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at amgylchedd dysgu diogel. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r cyfrifoldebau diogelu hyn gael eu cymryd o ddifrif. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ysgol fod â pholisi ymddygiad.Dylai strategaethau gwrthfwlio effeithiol fod yn rhan ganolog o'r polisi ymddygiad hwnnw a dylai pawb yn yr ysgol, gan gynnwys y staff a'r dysgwyr, eu datblygu a'u gweithredu. Mater i ysgolion unigol yw penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â bwlio a gweithredu polisïau gwrthfwlio yn eu lleoliad. Mae hyn yn cynnwys pa raglenni, os o gwbl, y maent yn dewis eu defnyddio i gefnogi'r ddarpariaeth hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I helpu ysgolion a'u cymunedau i fynd i'r afael â bwlio, rydym wrthi'n diweddaru ein canllawiau gwrthfwlio a gyhoeddwyd yn 2011. Mae'r gwaith diweddaru hwn yn cael ei wneud drwy gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i asesu sut y gallwn sicrhau bod y canllawiau'n hawdd eu defnyddio ac yn darparu cyfarwyddyd cyson a chymorth ymarferol i helpu ysgolion a'u cymunedau i atal a herio pob math o fwlio. Mae gwybodaeth am fanteision cefnogaeth gan gymheiriaid wedi'i chynnwys yn y canllawiau diwygiedig, a fydd yn cael eu cyhoeddi cyn hir.

Yn fwy cyffredinol, mae sicrhau llesiant disgyblion yn yr ysgol yn elfen allweddol o *Cenhadaeth ein Cenedl*, yn enwedig cyflawni amcan 3 (Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles), sy'n cydnabod bod yn rhaid i bob dysgwr gael ei gefnogi i fod yn barod yn emosiynol ac yn gorfforol i ddysgu mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae iechyd a llesiant wrth wraidd y cwricwlwm newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2022, a bydd yn sicrhau bod iechyd meddwl yn cael yr un blaenoriaeth â iechyd corfforol a bod llesiant emosiynol a chyrhaeddiad yn cael eu meithrin ar sail gyfartal.


Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn y broses o ddrafftio canllawiau i ysgolion ar gyfer Fframwaith newydd, ar gyflwyno dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a iechyd meddwl. Bydd y Fframwaith newydd yn pwysleisio'r angen i ysgolion wella eu llythrennedd iechyd meddwl a grymuso cymuned yr ysgol i wneud penderfyniadau gwybodus am eu anghenion iechyd meddwl. Gellir gwneud hyn trwy ganolbwyntio ar grwpiau cyfan, e.e. hyrwyddo drwy ymgyrchoedd cymunedol, cymorth gan gymheiriaid neu ymyriadau yn yr ysgol. Dylai ysgolion asesu â phwy y mae angen iddynt gyfathrebu (disgyblion, rhieni/gofalwyr, staff) a chwilio am ffyrdd arloesol o ddarparu gwybodaeth i bob cynulleidfa. Er enghraifft, rhoi gwybodaeth ar wefan yr ysgol, datblygu disgyblion hŷn i fod yn fentoriaid i'w cymheiriaid, cyfeirio gan staff nad ydynt yn addysgu megis staff y ffreutur, nyrsys yr ysgol, hyfforddwyr etc.

Yn gyffredinol, bydd y Fframwaith yn annog ysgolion yn gryf i hyrwyddo ethos o rannu arfer da a grymuso disgyblion i weithredu fel eiriolwyr drostyn nhw eu hunain a hefyd gofyn am gymorth ychwanegol pan fo angen.

Mae'r camau y mae Ysgol Dŵr y Felin wedi'u cymryd i hyfforddi disgyblion i fod yn genhadon llesiant er mwyn cefnogi eu cymheiriaid yn cyd-fynd â'r cyngor yn y Fframwaith newydd, ac rwy'n cymeradwyo'r ysgol am y ffordd y maent yn delio â'r mater hollbwysig hwn. Fodd bynnag, rwy'n deall na fydd pob ysgol mewn sefyllfa i hyfforddi a phenodi ei genhadon llesiant ei hun, a hoffwn bwysleisio eto mai prif ddiben ein canllawiau Fframwaith fydd helpu ysgolion i ddod o hyd i'w hatebion ei hunain i'r materion llesiant yn eu cymunedau nhw.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Deisebau o ymrwymiad Llywodraeth Cymru (a'm hymrwymiad personol i) i barhau i fynd i'r afael â bwlio a hyrwyddo dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a llesiant, gan sicrhau bod ein hysgolion a'u cymunedau yn leoedd diogel a hapus i'n dysgwyr.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education